

# cyfrifiad 2021

Arolwg sy'n cael ei gynnal bob 10 mlynedd yw'r cyfrifiad. Mae'n ddarn hanfodol o waith; a dweud y gwir, mae mor bwysig mae'r llywodraeth yn ei wneud yn ofyniad cyfreithiol i bob cartref ledled Cymru a Lloegr.

Ac mae'n rhoi darlun manwl i ni o'r boblogaeth, ei nodweddion, ble rydym ni'n gweithio, sut rydym ni'n byw, natur ein teuluoedd, a grwpiau ethnig gwahanol, sy'n llywio penderfyniadau yn genedlaethol ac yn lleol am wasanaethau hanfodol fel ysbytai, safleoedd bws, llwybrau bysiau, ysgolion ac ati.

Ers dechrau'r pandemig, mawredd, nôl ym mis Mawrth 2020 i ni, pan ddechreuodd y cyfyngiadau symud cyntaf, rydym ni wedi bod yn gweithio'n galed iawn i addasu'r ffordd y caiff y cyfrifiad ei gynnal.

A hefyd rydym ni wedi cael cyfle gwych i ddysgu am y ffordd mae awdurdodau lleol a llawer o fusnesau masnachol yn rhedeg eu gwasanaethau nhw yng nghyd-destun pandemig.

Ac ar sail popeth rydym ni wedi'i ddysgu, rydym ni wedi gallu gwneud newidiadau i'r ffordd rydym ni'n cynnal y cyfrifiad i sicrhau ei fod yn ddiogel i'r bobl sy'n gweithio i ni a phawb sy'n ymateb ledled Cymru a Lloegr.

Un peth da i'w wybod am Gyfrifiad 2021 sy'n wahanol i bob cyfrifiad arall sydd wedi cael ei gwblhau yw y bydd yn un digidol yn gyntaf, sy'n golygu ein bod ni'n disgwyl i'r mwyafrif helaeth o bobl ei gwblhau ar lein, ac i'r rhai sydd am lenwi holiaduron papur, gallan nhw ofyn am holiadur papur.

I'r mwyafrif helaeth o bobl a chartrefi ledled Cymru a Lloegr, mae hynny'n golygu na fydd angen iddyn nhw ddod i gysylltiad â staff na swyddogion maes.

Fodd bynnag, bydd cyfnod lle y bydd angen i staff maes gynnal ymweliadau. Maen nhw yno i helpu, maen nhw yno i'ch helpu chi i gwblhau'r cyfrifiad.

Dylid cofio pan fydd swyddog maes yn dod i'r drws nad yw'n wahanol i gael parsel.

Felly rydym ni'n rhoi yr holl git sydd ei angen ar y swyddog maes iddo wneud ei waith yn ddiogel. Rydym ni'n rhoi fest llachar i'r swyddogion maes gyda logo'r cyfrifiad, bathodyn adnabod fel y gall pobl wybod mai swyddogion y cyfrifiad swyddogol ydyn nhw, ac yna o safbwynt diogelwch, rydym ni'n rhoi gorchuddion wyneb iddyn nhw y byddan nhw'n eu gwisgo wrth gerdded tuag at yr eiddo, ar garreg y drws, ac yna'r holl amser nes eu bod nhw wedi gadael yr eiddo.

Rydym ni hefyd yn darparu hylif diheintio dwylo a weips diheintio, fel y gallan nhw lanhau eu dwylo a'r cyfarpar rhwng ymweliadau. Mae'n hanfodol bod y swyddogion maes a'r ymatebydd yn teimlo'n ddiogel.

Mae'r pellter, felly peidio â mynd i mewn i dŷ rhywun, yn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws, felly ar gyfer y ddau barti, mae'n bwysig nad ydym ni'n croesi'r trothwy hwnnw.

Pan ddechreuodd y pandemig gyntaf, un o'r cwestiynau y gwnaethom ni ofyn i'n hunain oedd, a ddylem ni ohirio?

Ai gohirio yw'r peth iawn? A allwn ni gynnal cyfrifiad yn ddiogel? Ni fyddai gohirio'r cyfrifiad heb ei gostau.

Rydym ni wedi amcangyfrif y gallai gostio hyd at £360 miliwn i ohirio tan y flwyddyn nesaf, ac nid dim ond cost i drethdalwyr fyddai hynny, oherwydd byddai hefyd yn gohirio rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr y mae ei hangen arnyn nhw i gynllunio gwasanaethau hanfodol, gan fod pethau wedi newid cymaint.

Mae 10 mlynedd ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, ac mae'r data hynny yn cael eu defnyddio drwy'r amser, hyd yn oed heddiw, ond mae 10 mlynedd yn amser hir. Pe byddech chi yn gallu meddwl am yr holl newidiadau sydd wedi digwydd dros y 10 mlynedd diwethaf, o ran y cyfryngau cymdeithasol a'r ffordd rydym ni'n gweithio, a phethau fel y pandemig, mae'n hanfodol ein bod ni'n diweddarau'r wybodaeth honno nawr er mwyn llywio'r gwaith cynllunio a'r penderfyniadau a'r polisïau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau hanfodol.

Felly, mae'n amlwg bod y pandemig wedi cyflwyno rhai heriau i ni o ran cynnal Cyfrifiad 2021. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig ein bod ni'n cael y wybodaeth hon er mwyn llywio'r gwaith cynllunio a'r penderfyniadau a'r polisïau sy'n hanfodol er mwyn helpu'r Deyrnas Unedig i adfer ar ôl y pandemig.

Rydym ni wedi gwneud llawer o newidiadau i'r broses o gynnal y cyfrifiad, rydym ni wedi gwrando ar holl gyngor y llywodraeth, ac rydym ni'n hyderus, ond nid yn hunanfodlon, y gallwn ni gynnal Cyfrifiad 2021 llwyddiannus iawn.